



Comisiynydd
**Cenedlaethau'r
Dyfodol**
Cymru

**Future
Generations**
Commissioner
for Wales

Datblygu Meysydd Blaenoriaeth ar gyfer Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol

2017 - 2023

“Yr hyn y mae Cymru'n ei wneud heddiw, gobeithiwn y bydd y byd yn ei wneud yfory – gweithredu yn fwy na geiriau yw'r gobaith ar gyfer cenedlaethau'n dyfodol” – Y Cenhedloedd Unedig

cenedlaethaurdyfodol.cymru



Datblygu Meysydd Blaenoriaeth ar gyfer gweithredu ar gyfer Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol

1. Trosolwg

Mae gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru ddyletswydd i:

(a) hybu egwyddor datblygu cynaliadwy, yn arbennig i -

- weithredu fel gwarcheidwad gallu cenedlaethau'r dyfodol i gwrdd â'u hanghenion, ac
- annog cyrff cyhoeddus i dalu mwy o sylw i effaith hirdymor yr hyn a wneir ganddynt, ac

(b) at y diben hwnnw fonitro ac asesu i ba raddau y mae'r amcanion llesiant a nodir gan gyrrff cyhoeddus yn cael eu diwallu.

Er mwyn cyflawni dyletswyddau a phwerau'r Comisiynydd, rwyf wedi cychwyn y broses o ddiffinio pwrpas Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, sef:

- (i) Amlygu'r materion mawr, yr heriau a'r cyfleoedd sy'n wyneb cenedlaethau'r dyfodol
- (ii) Cynorthwyo a herio gwasanaethau cyhoeddus i dalu mwy o sylw i effaith hirdymor yr hyn a wneir ganddynt
- (iii) Gweithio gydag eraill i sbarduno'r newidiadau sydd eu hangen
- (iv) Gweithredu yn ogystal â thrafod – ysgwyddo'r newid yr ydym yn dymuno ei weld mewn eraill

Ceir manylion pellach yn ein [Cynllun Strategol](#) a buaswn yn croesawu eich sabwyntiau ar y meysydd hyn.

(Gweler yr Atodiadau am fanylion llawn am y ddeddfwriaeth a dyletswyddau a phwerau'r Comisiynydd fel y cânt eu hamlinellu yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015).

Er mwyn cael effaith gwirioneddol a fydd yn arwain at newid hirbarhaol, rwy'n datblygu ymagwedd strategol a fydd yn rhoi ffocws i waith fy nhîm ac yn manteisio i'r eithaf ar fy adnoddau cyfyng. Byddaf yn nodi meysydd blaenoriaeth ar gyfer gweithredu, a fydd yn ganolbwynt fy nghymorth i gyrrff cyhoeddus ac a fydd yn nodi cyfleoedd allweddol i sbarduno newid gwirioneddol ar gyfer gwella llesiant cenedlaethau'r dyfodol yng Nghymru.

Byddaf yn ystyried eich safbwyntiau fel rhan o fy sgwrs barhaol i lywio'r meysydd gweithredu hyn. Unwaith y bydd y rhain wedi cael eu cytuno byddaf yn datblygu rhaglen waith glir ar y modd yr ydym i fynd i'r afael â'r materion hyn, drwy gydweithio gyda chyrff cyhoeddus a rhanddeiliaid ehangach, a gaiff ei chyhoeddi gyda fy adroddiad blynyddol yn ystod haf 2017. Mae fy Swyddfa'n cynllunio nifer o ddulliau y gallwch eu defnyddio i rannu eich safbwyntiau ar fy Nghynllun Strategol ac ar y papur hwn [cenedlaethaurdyfodol.cymru](#), Gweler Adran 1.2 am fanylion pellach.

1.1 Nodi meysydd blaenoriaeth i'w gweithredu gan fy Swyddfa

Yn unol ag egwyddorion y Ddeddf rwyf wedi dylunio proses sy'n ennyn ymgyfraniad eraill a fydd yn fy helpu i ddiffinio'r meysydd ar y rhain y byddaf yn canolbwyntio fy nghymorth a fy nghyngor i gyrff cyhoeddus. Rwyf yn nodi rhai o'r heriau hollbwysig hirdymor sy'n wynebu cenedlaethau'r dyfodol, gan ddadansoddi'r heriau hyn a darganfod cyfleodd i fynd i'r afael â hwynt mewn cydweithrediad â chyrrff cyhoeddus a rhanddeiliaid ehangach.

Yr ardaloedd hyn ar gyfer gweithredu yw'r rhai y bydd fy Swyddfa'n yn gweithio arnynt mewn dull rhagweithiol yn nhermau amlygu'r mater a datrysiau posibl ar lefelau cenedlaethol a lleol ac wrth wneud hyn bydd y pum dull o weithio a'r gydberthynas â'r nodau llesiant i gyd yn cael eu hystyried. Tra bydd y materion hyn yn eu hanfod ymhlith y materion mwyaf arwyddocaol sy'n wynebu Cymru **ni ddylai'r meysydd hyn gyfyngu'r materion y bydd angen i gyrff cyhoeddus eu hystyried fel rhan o'u dyletswydd o dan y Ddeddf.**

Cychwynnais sgwrs gyda chyrrff cyhoeddus, grwpiau â diddordeb ac unigolion pan gychwynnais ar fy swydd yn Chwefror 2016, ac mae'r safbwyntiau a gasglwyd yn ystod y cyfnod dwys hwnnw o ymgysylltu wedi llywio fy mhroses ar gyfer pennu blaenoriaethau'r dyfodol. Bydd y cyfnod nesaf yn fy helpu i

- 1) Nodi'r heriau eang a'r materion a fydd yn effeithio ar genedlaethau'r dyfodol yng Nghymru,
- 2) Nodi'r cyfleodd i fynd i'r afael â'r heriau a'r materion hyn, a'r meysydd posibl ar gyfer gweithredu.

Ar ôl iddynt gael eu nodi, bydd gwaith fy swyddfa'n canolbwyntio ar y meysydd gweithredu hyn a fedr gynnwys cynnig cymorth a herio eraill i weithredu ar lefel genedlaethol a lleol. Bydd y pum dull o weithio – cydweithio, ymgyfrannu, integreiddio, atal, ac edrych tuag at yr hirdymor a'r holl nodau llesiant – yn rhan hanfodol o'r holl broses.

1.2 Y broses ymgyfrannu

Rwyf wedi dewis ymgyfrannu ac ymgysylltu drwy sgwrs estynedig yn hytrach na drwy broses ymgynghori gonfensiynol. I wneud hyn rydym yn cydweithio gydag unigolion, arbenigwyr a phartneriaid i dreialu dulliau arloesol o weithio yn cynnwys *Sensemaker* – rhaglen ddigidol sy'n caniatáu i bobl ddweud wrthym beth sy'n bwysig iddynt hwy a dadansoddi eu hymatebion mewn ffordd a fydd yn ein helpu i ddeall blaenoriaethau pobl a llenwi unrhyw fylchau yn ein dealltwriaeth. Gallwch gyrchu [Sensemaker](#) yma i rannu eich barn ar y materion allweddol sy'n wynebu cenedlaethau'r dyfodol.

Mae fy Swyddfa hefyd yn trefnu cyfres o weithdai ledled Cymru yn ystod mis Mawrth lle bydd gennych gyfle i drafod y materion yn fwy manwl. Mae manylion llawn ar gael ar fy ngwefan [yma](#).

Mae'r broses hon yn adeiladu ar fy ymgysylltiad cynharach â chyrrff cyhoeddus, rhanddeiliaid a'r cyhoedd. Ers i mi gychwyn ar fy swydd rwyf wedi bod yn gwrandao ar ystod eang o bobl, yn cynnwys: cwrdd â'r 44 corff cyhoeddus a gwmpesir gan y Ddeddf; cynnal cyfres o ddigwyddiadau ymgysylltu â'r cyhoedd ledled y wlad, a chynnal gweithdai gyda phobl â gwybodaeth arbenigol am yr heriau mawr sy'n wynebu Cymru. Yn seiliedig ar y sgrysiâu hyn, cynhyrchais adroddiad, "[Siarad Cenedlaethau'r Dyfodol](#)" sy'n amlinellu fy nghanfyddiadau er mwyn rhoi adborth i'r rhai a gymerodd ran ac er mwyn parhau â'r sgwrs.

Rwyf hefyd wedi bod yn edrych yn agos ar y dystiolaeth bresennol, tueddiadau'r dyfodol ac amrywiaeth eang o adroddiadau i ddeall yr heriau mawr sy'n wynebu Cymru yn yr hirdymor. Yn arbennig rwyf wedi ystyried:

- a) Sgwrs genedlaethol Y Gymru a Garem yn 2015, a amlygodd bryderon allweddol o cymunedau ledled Cymru, ac a helpodd i lunio'r nodau llesiant a'r pum dull o weithio a nodir yn y Ddeddf.
- b) Y canfyddiadau yng nghyhoeddiad Llywodraeth Cymru 2013, *Deall Dyfodol Cymru*, a gymerodd stoc o asedau Cymru yn erbyn cefndir o dueddiadau byd-eang a fydd yn sbarduno newid yn y dyfodol. (Disgwylir i'r fersiwn diweddaraf o'r ddogfen hon fod ar gael ar gyfer y cyhoedd ar ffurf adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol ym Mai 2017, fel sy'n ofynnol o dan y Ddeddf).
- c) Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig i sicrhau synergedd rhwng ymdrechion i weithio tuag at y nodau byd-eang hyn a gwireddu llesiant cenedlaethau'r dyfodol yma yng Nghymru.
- d) Adnoddau presennol, data a dadansoddiad tueddiadau ar gyfer Cymru lle maent ar gael, yn cynnwys oddi wrth 'StatsWales', Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol, a data Cyfrifiad, yn ogystal ag ystod eang o ffynonellau sydd ar gael i'r cyhoedd.
- e) "The Global Risks Report 2017" o Fforwm Economaidd y Byd sy'n cadarnhau llawer o'r tueddiadau a'r materion allweddol a nodwyd gan fy nhîm.

Cynhaliais hefyd weithdy gydag arbenigwyr yn Nhachwedd 2016 i drafod yr heriau mawr oedd yn dod i'r amlwg a sut y gallem eu categoreiddio. Drwy'r gyfres hon o brosesau cydweithredol mae rhestr hir gychwynnol o faterion wedi eu hogi i lawr i bedair her gyffredinol sy'n wynebu Cymru yn yr hirdymor, yr ydwyf yn bwriadu datblygu drwyddynt feysydd ar gyfer gweithredu.

Mae'r 4 maes her gyffredinol canlynol wedi eu nodi hyd yn hyn:

- **Newid hinsawdd** – canolbwyntio ar leihau allyriadau a mynd i'r afael â'u heffeithiau
- **Newid economaidd** – addasu i economi sy'n addas ar gyfer y dyfodol
- **Newid yn y boblogaeth** – mynd i'r afael â heriau a chyfleoedd poblogaeth sy'n heneiddio, newid cyfansoddiadol ein cymunedau, a phwysigrwydd blynyddoedd cynnar a phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod
- **Ymddieithriad dinasyddion** – hyrwyddo cyfranogiad y cyhoedd a'u hymgyfraniad yn y broses benderfynu

O dan bob un o'r heriau mae fy nhîm wedi coladu materion sydd wedi eu codi drwy gyfnod cyntaf y sgwrs ac ymchwil, seiliedig ar dueddiadau'r dyfodol a rhagamcanion sydd ar gael yn eang. **Mae'r rhestr hon ymhell o fod wedi ei chwblhau ac mae'n rhan o'r sgwrs ei hunan.**

1.3 Pwrpas y ddogfen hon

Mae'r papur hwn yn rhan o gyfnod nesaf y sgwrs ac mae'n amlinellu dadansoddiad ffeithiol o'r heriau sy'n wynebu Cymru, y materion sy'n eu hachosi a'r problemau y gellid eu profi gan genedlaethau'r dyfodol fel canlyniad, h.y. canlyniadau pob un o'r heriau. Ceisiais fynd i'r afael â'r materion canlynol:

- Beth yw natur benodol yr heriau yr ydym yn eu hwynebu, yn seiliedig ar dystiolaeth sydd eisoes yn bodoli ac ar gael ar yr hyn sy'n eu hachosi?
- Beth yw canlyniadau tebygol yr heriau hyn ar genedlaethau'r dyfodol yng Nghymru, seiliedig ar ddata sydd ar gael a thueddiadau a ragwelir ar gyfer y dyfodol?

Byddaf yn gweithio gyda'r arolwg *Sensemaker* sydd ar gael [yma](#), a fydd yn casglu eich barn ar yr hyn sy'n bwysig i chi, eich barn ar achosion a chanlyniadau'r heriau sy'n wynebu Cymru, a restrir yn y ddogfen hon, eich tystiolaeth gefnogol lle mae ar gael, a mynegiad o'r meysydd y dylem, yn eich barn, roi blaenoriaeth iddynt. Petaech yn dymuno trafod unrhyw fanylion, os gwelwch yn dda cysylltwch â kate.hamilton@futuregenerations.wales

Rwyf felly'n gofyn i chi fy helpu i nodi'r heriau a'r materion a fydd yn cael yr effaith fwyaf ar genedlaethau'r dyfodol yng Nghymru, ac yn eich gwahodd i ddweud wrthyf:

- 1) I ba raddau yr ydych yn cytuno â'r 4 maes cyffredinol o heriau sy'n dod i'r amlwg yng Nghymru
- 2) I ba raddau yr ydych yn cytuno mai'r materion a nodir gennym yw:
 - a. y rhai hynny sy'n cyfrannu fwyaf at yr heriau cyffredinol sy'n wynebu Cymru
 - b. y rhai hynny a gaiff yr effaith mwyaf ar genedlaethau'r dyfodol yng Nghymru;
- 3) Ydyn ni wedi anwybyddu unrhyw faterion allweddol sy'n berthnasol i'r meysydd her hyn
- 4) Pa faterion yn eich barn chi yw'r rhai pwysicaf, a pham.

Buaswn hefyd yn hapus i gael unrhyw dystiolaeth ychwanegol (storïau, ystadegau, neu fathau eraill o dystiolaeth yn cynnwys eich profiad chi eich hunain) am y meysydd her hyn, materion o dan y meysydd her hyn ac effaith y materion hyn yng Nghymru, a, lle mae'n bosibl, unrhyw enghreifftiau o arfer da wrth fynd i'r afael â hwynt.

1.4 Y camau nesaf

Bydd cyfnod cyntaf y sgwrs yn digwydd rhwng Chwefror ac Ebrill 2017. Bydd y cyfnod nesaf yn dadansoddi'r adborth a'ch sylwadau ar y materion y dylid yn eich barn roi blaenoriaeth iddynt, sef:

- Nodi nifer llai o faterion allweddol y gall fy swyddfa ganolbwyntio arnynt mewn perthynas â phob her
- Gwneud y rhain yn destun dadansoddiad trwyadl o dueddiadau data a thystiolaeth o'r hyn sy'n gweithio er mwyn nodi'r cyfleoedd ar gyfer gweithredu ar y materion hyn
- Yn seiliedig ar yr ymchwil hwn, nodi ein meysydd blaenoriaeth ar gyfer gweithredu, y bydd gennyf y cyfle gorau drwyddynt i sbarduno newid gwirioneddol yng Nghymru mewn dull effeithiol.

Bydd y meysydd blaenoriaeth hyn ar gyfer gweithredu yn rhai sy'n cynnig cyfleoedd gwirioneddol i fy swyddfa wneud gwahaniaeth wrth fynd i'r afael â'r 4 her gyffredinol sy'n wynebu cenedlaethau'r dyfodol yng Nghymru. Bydd y meysydd blaenoriaeth hyn wrth galon fy nghynllun strategol a fy nghynlluniau blynyddol, a'r rhaglen waith ar gyfer fy Swyddfa.

Bydd y meysydd blaenoriaeth y cytunwyd arnynt ar gyfer gweithredu'n cael eu cyhoeddi ochr yn ochr â fy adroddiad blynyddol yn ystod haf 2017.

MEYSYDD HER

2. Newid Hinsawdd – Canolbwyntio ar leihau allyriadau a mynd i'r afael â'u heffeithiau

2.1 Trosolwg

Mae'r newid yn yr hinsawdd yn her fyd-eang, gydag effeithiau eang a chydabyddiaeth gynyddol o'r hyn sy'n ei achosi. Amlygodd "The Global Risk Report 2017" bod y methiant i leihau ac addasu i'r newid yn yr hinsawdd yn un o'r peryglon allweddol a fydd yn cynyddu'r effaith a'r tebygrwydd o newid yn yr hinsawdd. Mae pob un o'r 16 mlynedd diwethaf wedi bod ymhlith y rhai cynhesaf a recordiwyd; mae yna fwy o lifogydd a sychder ledled y byd, ac mae rhagamcanion yn awgrymu y bydd busnes fel arfer yn ein dwyn tuag at blaned a fydd 4.6°C yn gynhesach, gyda'r potensial o gael effeithiau dinistriol ar ein bywoliaethau, bioamrywiaeth, economi, iechyd, gallu i gael bwyd, dŵr ac ynni a llawer mwy. Mae rheoli ein hadnoddau naturiol mewn dull cynaliadwy a gwarchod a diogelu ein bywyd gwylt, bioamrywiaeth a'r amgylchedd naturiol yn hollbwysig ar gyfer gwella llesiant, a bydd effeithiau'r newid yn yr hinsawdd felly'n her allweddol i fynd i'r afael â hi. Mae Cytundeb Paris a ddaeth i rym yn Nhachwedd 2016, a lofnodwyd gan bob un o'r 197 cenedl, yn gam arwyddocaol ymlaen, a'r bwriad yw cadw cynhesu byd eang i lai na 2°C. Hyd yn hyn mae 125 o wledydd yn cynnwys y DU (a Chymru felly) wedi mabwysiadu'r cytundeb ar lefel genedlaethol. Mae'r DU wedi ymrwymo i leihau ei hallyriadau nwyon tŷ gwydr o 80% o leiaf erbyn 2050 (o lefelau 1990). O dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 mae Cymru hefyd wedi ymrwymo i leihau ei hallyriadau o 80% o leiaf erbyn 2050, gyda thargedau interim i'w gosod ar gyfer 2020, 2030 a 2040. Mae strategaeth bresennol Cymru ar y newid yn yr hinsawdd yn gosod targed interim o 40% o leihad erbyn 2020 ynghyd â 3% o leihad yn flynyddol mewn meysydd a ddatganolwyd. Tra'n bod yn cwrdd â'r un olaf ymddengys ein bod ymhell o wireddu'r cyntaf; dangosodd adroddiad diweddaraf Llywodraeth Cymru (2015) mai dim ond 11.9% o leihad a wireddwyd gennym hyd yn hyn. Yn y cyd-destun hwn rhaid gweld newid hinsawdd fel un o'r heriau pwysicaf sy'n wynebu cenedlaethau'r dyfodol yng Nghymru, yn arbennig o gadw mewn golwg bod rhagamcaniadau byd-eang yn awgrymu y gallai'r newid yn yr hinsawdd gwtogi gwerth asedau ariannol y byd o £1.7 triliwn.

2.2 Ffactorau allweddol sy'n cyfrannu tuag at y newid yn yr hinsawdd yng Nghymru:

- Mae **allyriadau nwyon tŷ gwydr** yng Nghymru'n gyfrifol am 9% o gyfanswm net nwyon tŷ gwydr y DU (neu 7.2% o gadw mewn golwg bod peth o'r ynni a gynhyrchir yng Nghymru'n cael ei ddefnyddio mewn mannau eraill). Tra cafwyd lleihad o rwy 12% mewn allyriadau rhwng 1990 a 2013, yn ystod 2012 a 2013 cafwyd cynnydd o 10% mewn allyriadau, yn bennaf oherwydd cynnydd mewn cynhyrchu haearn a dur a phwerdai'n newid o nwy naturiol i lo. Dyma gyfranwyr allweddol i allyriadau yng Nghymru:
 - Mae **cyflenwad ynni'n** cyfrannu 42%, a gynhyrchir o nifer o ffynonellau yng Nghymru, a dim ond 10% ohono (2013) yn dod o ffynonellau trydan adnewyddadwy, y ganran isaf yn y DU. Mae peth o'r cyfanswm ynni hwn a gynhyrchir yng Nghymru'n cael ei allforio i genhedloedd eraill y DU
 - Mae **busnes a phrosesau diwydiannol** yn cyfrannu tua 24%, yn gysylltiedig yn bennaf â diwydiannau trwm fel haearn a dur, gwresogi'r sector busnes, a phrosesau gweithgynhyrchu



- Mae **allyriadau amaethyddol** yn cyfrannu 12%, yn bennaf oherwydd da byw, gwrtaith a'r defnydd o danwydd
- Mae **trafnidiaeth** yn cyfrannu 11%, o ffyrdd, rheilffyrdd, awyr a dŵr. Caiff y ffigur hwn ei ddomineiddio gan allyriadau trafndiaeth ffyrdd (93%), 56% ohono o geir yn unig
- Mae **cartrefi**'n cyfrannu 8%, y rhan fwyaf ohono (97%) yn deillio o'r tanwydd a ddefnyddir i wresogi a choginio
- Mae **rheoli gwastraff** a'r **sector cyhoeddus** (drwy eu hystadau a'u gweithgareddau) yn ychwanegu 3% arall at allyriadau yng Nghymru
- **Ymddygiad defnyddio** – petai pawb yn y byd yn defnyddio'r un faint o adnoddau â'r dinesydd Cymreig cyffredin, byddai angen ychydig dros 2.5 o blanedau i ysgwyddo'r holl faich amgylcheddol. Mae hyn oherwydd ein deiet a'r nwyddau a'r gwasanaethau yr ydym yn eu defnyddio yn ogystal â bodloni'n defnydd o ynni yn y cartref, trafndiaeth a'n hanghenion adeiladu
- **Poblogaeth sy'n cynyddu** – mae mwy o bobl, yn fyd-eang ac yng Nghymru yn debygol o arwain at fwy o allyriadau, hyd yn oed os byddwn yn dod yn well am leihau allyriadau fesul person, yn arbennig gyda chynnydd mewn teithio a chynnydd mewn prynwriaeth seiliedig ar adnoddau oherwydd y newid mewn ffyrdd o fyw

2.3 Canlyniadau tebygol a ddaw yn sgil y newid yn yr hinsawdd sy'n wynebu cenedlaethau'r dyfodol

- **Effaith ar batrymau tywydd** – Mae cynnydd yn nymheredd byd-eang yn debygol o achosi digwyddiadau hinsawdd mwy anrhagweladwy ac eithafol, yn cynnwys cynnydd yn nwysedd glaw a chynnydd yn amlder llifoedd afon uchel, yn arwain at risg uwch o ddŵr wyneb a llifogydd o afonydd
- **Effaith ar fioamrywiaeth** – mae poblogaethau bywyd gwyllt yn fyd-eang eisoes wedi lleihau o 58% ers 1970 ac mae hyn yn debygol o gyrraedd 67% erbyn 2020. Yng Nghymru mae bygythiadau penodol i briddoedd, ffynonellau dŵr croyw, ecosystemau morol, bywyd gwyllt a chynefinoedd
- Effaith ar ffynonellau allweddol, yn cynnwys:
 - **Ynni** – Bydd diogelwch a fforddiadwyedd ein cyflenwad ynni'n cael eu heffeithio gan y newid yn yr hinsawdd. Mae tlodi tanwydd yng Nghymru eisoes yn uchel gyda 23% o gartrefi'n gwario dros 10% o'u hincwm ar filiau ynni, a bydd y cyfuniad o brinder tai fforddiadwy ac aneffeithlonrwydd cartrefi yn arwyddocaol i gartrefi agored i niwed, a hyn eisoes wedi achosi dros 2,300 o farwolaethau ychwanegol yn ystod y gaeaf yng Nghymru a Lloegr yn 2014/15
 - **Bwyd** – gallai cadwyni cyflenwi bwyd byd-eang, yr ydym yn dibynnu arnynt yn gynyddol, gael eu niweidio'n ddifrifol wrth i effeithiau'r newid yn yr hinsawdd effeithio ar ddiogelwch dŵr, cynnyrch amaethyddol ac adnoddau economaidd mewn rhannau eraill o'r byd
 - **Dŵr** – mae ansawdd dŵr yn debygol o gael ei effeithio gan lifogydd. Mae'r cynnydd yn nymheredd dŵr hefyd yn debygol o leihau'r mathau o bysgod mewn rhai dalgylchoedd. Er bod gan Gymru ar hyn o bryd ddigon o ddŵr dros ben disgwylir i'r newid yn yr hinsawdd gyfyngu ar y cyflenwad dŵr wrth i'r cynnydd mewn poblogaeth gynyddu'r galw amdano
- **Effaith ar dai** – mae rhyw 11% (oddeutu 165,000 eiddo) o stoc adeiladu Cymru wedi ei leoli ar orlifdir afonydd neu orlifdir arfordirol, gyda 53,000 o'r eiddo hynny mewn mannau sy'n wynebu tebygrwydd arwyddocaol o lifogydd o afonydd neu o'r môr. Disgwylir i niwed blynyddol i eiddo gostio £200 miliwn y flwyddyn ar gyfartaledd

- **Effaith ar ymfudo** – mae yna dystiolaeth eang y gallai'r newid yn yr hinsawdd achosi cynnydd mewn mewnfudo o rannau eraill o'r byd sydd wedi cael eu heffeithio'n ddifrifol. Mae Uchel Gomisiynydd y Cenhedloedd Unedig dros Ffoaduriaid wedi rhybuddio y gallai newid yn yr hinsawdd achosi dadleoliad i fyny at 250 miliwn o bobl erbyn 2050
- **Effaith ar ffermio a defnydd tir** – mae 84% o dir Cymru'n amaethyddol. Gallai cynhyrchiant ffermio weld newidiadau dramatig o dan amodau hinsawdd gwahanol, yn arbennig o ystyried bod rhyw 80% o'r tir hwn eisoes wedi ei ddynodi'n 'llai ffafriol', h.y. yn profi tir gwael, amodau cynaeafu a hinsawdd wael. Gallai'r newid yn yr hinsawdd hefyd niweidio coetiroedd hynafol, cloddiau ac asedau naturiol eraill
- **Effaith ar seilwaith a gwasanaethau allweddol** – gallai ein seilwaith yn cynnwys trafndiaeth a gwasanaethau cyfleustodau gael eu niweidio gan lifogydd, y perygl hirdymor mwyaf, a gan wres, prinder dŵr ac ansefydlogrwydd llethrau wedi ei achosi gan dywydd eithafol. Mae llifogydd eisoes yn cyfrif am golledion arwyddocaol mewn gwasanaethau sy'n dibynnu ar seilwaith ffisegol fel ffyrdd, rheilffyrdd a chyflenwad ynni
- **Effaith ar iechyd** – amcangyfrifir y bydd marwolaethau sy'n gysylltiedig â gwres yng Nghymru'n cynyddu i rhwng 3.1 a 14.3 fesul 100,000 yn 2050. Gallai'r newid a ragwelir yn yr hinsawdd arwain at broblemau anadlol gwaeth fel canlyniad i ansawdd aer gwaeth mewn ardaloedd trefol a gwledig ac oherwydd ei effaith ar anhwylder alergedd tymhorol. Gall cynnydd yn lefelau trafndiaeth fel canlyniad i seilwaith nad yw wedi cael ei addasu ar gyfer y newid yn yr hinsawdd arwain at lygredd sŵn, sydd eisoes yn effeithio ar gartrefi dros 200,000 o bobl yng Nghymru sy'n agored i lefelau o sŵn trafndiaeth ar y ffyrdd sy'n fwy na chanllawiau sŵn nos Sefydliad Iechyd y Byd. Yn ôl Sefydliad Iechyd y Byd mae'r newid yn yr hinsawdd 'ymhlith y peryglon mwyaf i iechyd yn yr unfed ganrif ar hugain', gydag effaith cynyddol ar, er enghraifft, reoli clefydau a chyflenwad dŵr glân
- **Effeithiau ar fusnesau** – gall llifogydd a digwyddiadau tywydd eithafol greu niwed i asedau ac amharu ar weithgareddau busnes, yn arbennig lle mae capasiti cyfyng ar gyfer addasu i'r newid yn yr hinsawdd a'r niwed a allai ei achosi fel canlyniad i lifogydd, ymhlith eraill. Yn ôl Asesiad o Risgiau Newid Hinsawdd, erbyn 2050 mae'n debyg y bydd cynnydd o rhwng 29% - 96% yn y niwed i eiddo dibreswyl yng Nghymru
- **Effaith ar fuddsoddiadau** – gallai'r newid yn yr hinsawdd hefyd effeithio ar ble a pha faint y bydd busnesau'n buddsoddi yn yr hirdymor. Mae'r diwydiant yswiriant eisoes yn wynebu cynnydd cyson yng nghost hawliadau busnes oherwydd difrod tywydd, ac os bydd hyn yn gwneud yswiriant yn ddrutach neu'n fwy cyfyng ei gwmpas gallai hyn fod yn niweidiol, yn arbennig i fusnesau bach sy'n ffurfio rhan sylweddol o'r sector busnes yng Nghymru.

3. Newid economaidd – symud at economi sy'n addas ar gyfer y dyfodol

3.1 Trosolwg

Mae economi sy'n addas ar gyfer y dyfodol yn un sy'n arloesol a chynhyrchiol mewn adeiladu cymdeithas garbon isel. Mae'n cydnabod cyfyngiadau'r amgylchedd byd-eang ac felly'n defnyddio adnoddau'n gymesur ac yn gweithio i leihau a lliniaru'r newid yn yr hinsawdd. Mae hefyd yn cynorthwyo datblygiad poblogaeth fedrus sydd wedi cael addysg dda, gan gynhyrchu cyfoeth a darparu gwaith gweddus drwy'r hwn y gall pawb fanteisio ar y cyfoeth hwnnw. Nid yw hwn yn economi y gellir ei fesur yn ystyrllon drwy dwf economaidd yn unig, ac mae llawer wedi dadlau dros amser hir nad yw'n gydnaws â thwf economaidd o gwbl. Mae'r angen i feddwl mewn dull newydd am ddatblygu economaidd yn cael ei gydnabod yn eang, yn cynnwys gan sefydliadau byd-eang fel Banc y Byd, Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd, a Fforwm Economaidd y Byd sy'n gweithio tuag at *dwf cynhwysol*. Mae'n ddigon tebyg bod llawer mwy i'w ddweud wrthym p'un ai ydym yn symud tuag at economi sy'n cyflawni llesiant cenedlaethau'r dyfodol ai peidio, gan fesuriadau amgen megis y Mynegai Cynnydd Cymdeithasol (sy'n "*mesur cynnydd cymdeithasol nid cyfoeth*") neu Fesurau Llesiant (sy'n monitro "*sut mae'r DU ar y cyfan yn dod ymlaen y dyddiau hyn*") neu hyd yn oed y Mynegai Hapusrwydd (sy'n "*mesur yr hyn sy'n bwysig*"). Ond mae gwneud cynnydd yn erbyn mesuriadau o'r fath yn gofyn am newidiadau dramatig yn y dull o feddwl am strategaeth economaidd a ffyniant yng Nghymru.

Ar yr un pryd mae globaleiddio ac arloesedd technolegol yn newid yr amodau economaidd yn gyson ac mae Cymru'n wynebu heriau sylweddol wrth geisio dal i fyny, heb son am oddiweddyd, y newidiadau hyn. Mae gan Gymru lefelau hirsefydlog uchel o dlodi, amddifadedd ac anghyfartaledd: mae'r economi busnes fel arfer wedi methu darparu llesiant i rannau arwyddocaol o'r boblogaeth, mae etifeddiaeth gorffennol diwydiannol Cymru yn dal yn weledol drwy ei effaith ar yr amgylchedd naturiol a bioamrywiaeth, yn ogystal ag ar ein iechyd, a rydym mewn perygl o gael ein gadael ar ôl hyd yn oed ymhellach gan 'gynnydd' economaidd fel y mae'n digwydd ar hyn o bryd. Mae ein ffyniant yn y dyfodol yn dibynnu ar feithrin y sgiliau cywir, seilwaith (naturiol ac adeiledig), a diwydiannau ar gyfer addasu a ffynnu o dan amodau sy'n newid ac sy'n rhai na ellir mewn gwirionedd eu rhagweld.

3.2 Ffactorau allweddol sy'n cyfrannu at yr her economaidd i Gymru:

- **Penderfyniadau economaidd tymor byr** – caiff penderfyniadau economaidd eu sbarduno gan gylchoedd etholiadol ac agendâu polisi tymor byr, felly, yn aml iawn nid oes cysondeb rhyngddynt â nodau hirdymor
- **Gwerth Ychwanegol Isel** – O bob rhanbarth yn y DU, gan Gymru'r mae'r Gwerth Ychwanegol Gros isaf sef £18,002 y pen (71% o gyfartaledd y DU)
- **Enillion isel** – y gyfradd gyflogaeth yw 71.3%, a hyn yn is nag yn 8 o ranbarthau a gwledydd eraill y DU (ac eithrio Gogledd Iwerddon, Gogledd Ddwyrain Lloegr a Gorllewin Canolbarth Lloegr) gydag enillion wythnosol yr ail isaf yn y DU
- **Cynhyrchiant isel** – mae cynhyrchiant economaidd, sy'n mesur pa mor dda yr ydym yn defnyddio'n hadnoddau'n cynnwys y gweithlu, am bob uned o gynnyrch neu wasanaethau yr ydym yn eu cynhyrchu, 31% yn is yng Nghymru nag yn Llundain (& isaf o'i gymharu â phob rhanbarth arall yn Lloegr). Un ffactor yn y bwlch cynhyrchiant hwn yw lefel isel o gymwysterau ymhlith gweithwyr Cymru
- **Buddsoddiadau Annigonol** – gall seilwaith annigonol megis ag ar gyfer cynhyrchu ynni, trawsyrru a dosbarthu, dŵr, telegyfathrebu a thrafnidiaeth arwain at dagfeydd, toriad pŵer, a phrinder mynediad i ffyrdd ac adnoddau,

- **Defnyddio Gweithlu** – yng Nghymru mae yna lawer o swyddi sgiliau isel a chyflogau isel, ond mae cyfran uchel o'r swyddi hyn yn cael eu dal gan weithwyr â gormod o gymwysterau, sy'n awgrymu nad yw'r sgiliau sydd ar gael yn cael eu defnyddio'n ddigonol ac felly heb fod yn cyfrannu gymaint ag y gallent tuag at gynhyrchiant a pherfformiad economaidd
- **Prinder gwaith gweddus** – mae cyfran uchel o swyddi yng Nghymru, yn arbennig fel y rhai yn y sectorau gofal, adwerthu a lletygarwch, heb fod yn cynnig tâl da, cytundebau diogel neu fanteision gweddus megis gofal plant ac oriau hyblyg. O bell ffordd, prinder gwaith gweddus yw'r ffactor pwysicaf o hyd yn y lefelau tlodi cymharol uchel yng Nghymru
- **Cyrhaeddiad addysgol isel** – mae hyn yn cyfrannu at ddiffyg parodrwydd i weithio, yn arbennig mewn swyddi gweddus a swyddi'r dyfodol. Ar sail y tueddiadau presennol, rhwng 2015-2020 ni fydd gan i fyny at 70,000 o rai sy'n gadael yr ysgol bump TGAU da
- **Toriadau mewn cyllid** – mae toriadau mewn cyllid a mesurau caledi yn effeithio ar lawer o wasanaethau cyhoeddus. Mae toriadau hefyd yn effeithio ar swyddi'r sector cyhoeddus, ac mae Cymru'n arbennig o agored i gael ei niweidio yn hyn o beth oherwydd y nifer cymharol uchel o swyddi sector cyhoeddus (uwch na chyfartaledd y DU o 26.7%). Nid yw goblygiadau Brexit eto'n glir ond gallent fod yn arwyddocaol gan fod Cymru ar hyn o bryd yn derbyn mwy o arian oddi wrth yr UE (£520 miliwn) nag y mae'n ei gyfrannu (£442 miliwn)
- **Dirwasgiad** – mae dirwasgiad wedi effeithio ar bartneriaid masnachol Cymru o fewn a thu hwnt i'r UE, ac mae allforion wedi syrthio o ryw £300m fel canlyniad. Mae'r lleihad ym mhrisiau nwyddau a'r cynnydd ym mhrisiau bwyd anifeiliaid a gwrtaith wedi bwrw'n heconomi gwledig yn benodol, yn arbennig y sector da godro
- **Globaleiddio** – mae symudiad diwydiannau trwm allan o Gymru, oherwydd cystadleuaeth o rannau eraill y byd, wedi peryglu swyddi yr ydym wedi dibynnu arnynt yn draddodiadol, a hyn wedi distrywio bywoliaethau llawer o bobl
- **Diwygio lles** – mae diwygiadau lles yn y DU wedi bwrw Cymru'n galed, yn arbennig yr oedolion anabl hynny o oedran gweithio, sydd wedi colli rhyw £165 y pen. Mae hyn yn arbennig o broblemus oherwydd y raddfa uchel o bobl anabl yng Nghymru (mae 24% o'r boblogaeth o oedran gweithio'n nodi anabled, o'i gymharu â 20% yn Lloegr. Ar gyfartaledd, mae hanner yr oedolion o oedran gwaith sydd heb waith yng Nghymru'n anabl)
- **Costau byw sy'n codi** – mae gallu pobl i fforddio nwyddau a gwasanaethau sydd eu hangen ar gyfer safon byw 'digonol' wedi gostwng. Mae cynnydd mewn cyflogau wedi bod yn araf; mae newidiadau mewn credydau treth a budd-daliadau wedi effeithio ar incwm cartrefi, a chost nwyddau angenrheidiol wedi codi o 28% ers 2008 – yn gynt na chwyddiant cyffredinol. Mae cost uchel gofal plant hefyd wedi bod yn rhwystr arwyddocaol i weithio
- **Treth** – mae dulliau sylfaenol ar gyfer lleihau tlodi, megis treth a budd-daliadau, heb gael eu datganoli a hyn yn golygu na ellir mynd i'r afael â gwella polisïau sy'n ymwneud ag anghenion a galwadau lleol
- **Polisïau tlodi** – nid yw'r rhain wedi bod yn ddigonol nac yn effeithiol, y gellir yn rhannol ei briodoli i brinder sylfaen dystiolaeth sy'n ddigon cryf, sy'n cynnwys data dadelfenedig ar gyfer adnabod a tharged i'r grwpiau hyn o bobl yn well.
- **Aflonyddwch technolegol** – bydd y cynnydd mewn digideiddio diwydiant ac awtomeiddio gwaith yn cynyddu'r pwysau ar argaeledd swyddi, yn arbennig i'r rhai hynny mewn swyddi sgiliau isel a rolau gweithgynhyrchu. Rhagwelir y gallai 35% o swyddi yn y DU fod mewn perygl yn y 10-20 mlynedd nesaf fel canlyniad i awtomeiddio

3.3 Canlyniadau tebygol yr her economaidd sy'n wynebu cenedlaethau'r dyfodol

- **Effaith ar incwm** – mae tlodi yng Nghymru ar gyfartaledd yn uwch nag yn y DU, ac mae'r cyfraddau wedi aros mwy neu lai'r un fath yn ystod y 12 mlynedd diwethaf. Mae 23% o bobl yng Nghymru'n ei chael hi'n anodd cael dau ben llinyn ynghyd ac mae lefelau pobl nad ydynt yn gweithio, diweithdra, tangyflogaeth, a phobl sy'n profi tlodi wedi cynyddu. Os nad fydd newid yn y ffordd mae'r economi'n gweithio nid yw hyn yn debygol o wella
- **Effaith ar fforddiadwyedd nwyddau a gwasanaethau** – mae 23% o gartrefi yng Nghymru, tua 291,000 o gartrefi, yn byw mewn tlodi tanwydd. Mae'r rhan fwyaf o'r rhain (261,000) yn cynnwys plentyn, person hŷn, neu rywun sy'n anabl neu'n profi salwch hirdymor. Mae nifer cynyddol o bobl yn cyrchu banciau bwyd a thanwydd ac mae Age Cymru wedi darganfod bod treian o gartrefi gyda phobl wedi ymdeol yn gwario llai ar fwyd, gwres, gweithgareddau cymdeithasol a nwyddau eraill. Mae cymunedau gwledig eisoes yn wynebu heriau wrth gyrchu gwasanaethau a chânt eu heffeithio ymhellach gan doriadau mewn gwasanaethau, yn arbennig y rhai hynny ar incwm isel, preswylwyr hŷn, a theuluoedd sy'n dibynnu fwyaf ar wasanaethau cyhoeddus
- **Effaith ar iechyd** – mae gan bobl sy'n profi tlodi neu'n byw mewn ardal o amddifadedd nifer llai o flynyddoedd i fyw heb salwch neu anabledd ac yn debygol o farw'n gynt. Yn ôl Iechyd Cyhoeddus Cymru mae gordewdra'n fwy cyffredin mewn ardaloedd lle mae pobl yn profi tlodi, a mwy o oedolion yn marw fel canlyniad i ysmegu neu gamddefnyddio alcohol yn yr ardaloedd hyn o'i gymharu â'r ardaloedd lleiaf amddifad. Mae diweithdra, yn arbennig ddiweithdra hirdymor, hefyd yn ffactor sy'n cyfrannu tuag at gyflyrau iechyd meddwl mewn oedolion (24%), ysmegu (43%), anweithgarwch corfforol (60%). O fwy o bryder hyd yn oed yw bod problemau iechyd yn cynyddu cyfradd marwolaeth o 20-25% yn y deng mlynedd yn dilyn colli swydd
- **Effaith ar blant** – mae 29% o blant yn byw mewn tlodi. Mae gan blant sy'n byw mewn cartrefi incwm isel waeth iechyd meddwl ac iechyd corfforol, ac maent yn ennill canlyniadau gwaeth yn yr ysgol na'r rhai o deuluoedd gwell eu byd, gan gynyddu'r risg o aros mewn tlodi ar draws cenedlaethau. Mae yna hefyd fwy o risg iddynt gael Profiadau Niweidiol yn Ystod Plentyndod, a fedr arwain at fwy o debygrwydd o ymddygiad sy'n ddrwg i iechyd yn ystod eu bywydau, gan effeithio ar gyfleoedd bywyd y genhedlaeth nesaf
- **Bwlch sgiliau cynyddol** – mae'n debygol y bydd cynnydd yn y bwlch sgiliau wrth i swyddi proffesiynol a swyddi rheoli dyfu ac wrth i swyddi lled fedrus a di-grefft leihau, gan arwain at gystadleuaeth ddwys am swyddi. Plant a phobl ifanc sy'n tyfu mewn tlodi a gaiff eu heffeithio fwyaf gan eu bod yn fwy tebygol o ennill canlyniadau addysgol gwael, o feddiannu sgiliau a dyheadau is, a hefyd am eu bod yn debygol o fod mewn swyddi tâl isel, yn ddi-waith, ac yn ddibynnol ar y wladwriaeth les fel oedolion
- **Cost darparu gwasanaethau** – Fel canlyniad i lefelau uchel o dlodi ac anghenion cymdeithasol mae Cymru'n gwario £3.6 biliwn bob blwyddyn ar wasanaethau sy'n delio â chanlyniadau cymdeithasol drwy'r systemau iechyd, addysg, gofal cymdeithasol a chyfiawnder troseddol. Golyga hyn bod £1 o bob £5 sy'n cael ei wario ar wasanaethau cyhoeddus yn ymwneud â thlodi
- **Effaith ar gydraddoldebau** – mae plant, teuluoedd un rhiant, menywod, pobl anabl, pobl o gefndiroedd ethnig nad ydynt yn wyn, ceiswyr lloches a ffoaduriaid mewn perygl o fod yn dlotach na gweddill y boblogaeth. Felly, bydd methiant i fynd i'r afael ag achosion tlodi'n parhau i gael effaith anghyfartal ar gyfdeithas Cymru

- **Effaith ar ddiwylliant** – mae toriadau'n effeithio ar wasanaethau anstatudol megis diwylliant a chyfleusterau hamdden yn bennaf, gan greu rhwystr i gyfranogiad diwylliannol, a phlant o gymunedau o amddifadedd yn dioddef fwyaf. Ar adeg pan mae'r sector diwydiannau creadigol yn ehangu'n gyflym gallai hyn gael effaith niweidiol ar dwf y sector yn y dyfodol gan niweidio cyfleoedd cyflogaeth posibl i bobl ifanc yn y diwydiannau hyn

4. Newid yn y boblogaeth – mynd i'r afael â heriau a chyfleoedd poblogaeth sy'n heneiddio, newid cyfansoddiad ein cymunedau, a phwysigrwydd blynyddoedd cynnar a phrofiadau niweidiol yn ystod plentynod

4.1 Trosolwg

Disgwylir i boblogaeth y byd gyrraedd 9 biliwn erbyn 2050. Mae poblogaeth Cymru nid yn unig yn debygol o gynyddu ond bydd cynnydd mawr yn nifer y boblogaeth sy'n heneiddio. Tra bod bywydau hwy yn rhywbeth i'w ddathlu – mae gennym yn awr dros 25,000 o bobl dros 90 oed neu fwy, o'i gymharu â 700 yn 1911. Bydd poblogaeth sy'n heneiddio hefyd yn golygu cynnydd mewn materion iechyd yn ymwneud ag oedran. Bydd poblogaeth Cymru hefyd yn gweld llai o gymhareb rhwng y nifer o weithwyr a nifer pensïonwyr, a newid yn natur cymdeithas fel canlyniad i: ymfudo, yn rhyngwladol ac o rannau eraill o'r DU, a ddaw â chymysgedd o fanteision a phwysau ledled cymdeithas; newidiadau yn ethnigrwydd ein cymunedau, sydd, tra'u bod yn dal yn bennaf yn wyn a Christnogol, wedi dod yn fwy amrywiol o ran ethnigrwydd yn y degawd diwethaf; a newidiadau yn ein ffordd o fyw sydd wedi gweld twf yn y nifer o gartrefi (7.4%) yn y degawd diwethaf, yn bennaf oherwydd mwy o gartrefi un person. Hefyd gwelwyd lleihad yn y nifer o bobl sy'n siarad Cymraeg, yn arbennig mewn ardaloedd a fu gynt yn ardaloedd Cymraeg eu hiaith.

Wrth edrych ar yr hirdymor mae angen i ni dalu sylw arbennig i'r blynyddoedd cynnar, gan roi i genedlaethau newydd yng Nghymru'r cychwyn gorau posibl mewn bywyd ni waeth ble mae eu man cychwyn, gan dorri cylchoedd amddifadedd ac anfantais lle maent yn glynu a lleihau amllder profiadau niweidiol yn ystod plentynod â ganddynt y fath ganlyniadau drwy gydol bywyd a hyd yn oed genedlaethau i ddod.

4.2 Ffactorau allweddol sy'n cyfrannu at newid yn y boblogaeth

- **Poblogaeth sy'n cynyddu** – bydd poblogaeth Cymru'n cynyddu o 3.1 miliwn i 3.3 miliwn erbyn 2033. Bydd treian o bobl yn 65+ mlwydd oed – bron i ddwywaith gymaint ag ar hyn o bryd – tra bydd yr hyn yr ydym yn ei ystyried fel oedran gweithio (16-64) yn lleihau o 5% rhwng 2014 a 2039. Dros y degawd diwethaf Caerdydd a welodd y cynnydd mwyaf mewn poblogaeth (12%), Sir Benfro (8%) Pen-y-bont ar Ogwr (8%) a Sir Fynwy (7%). Mae cynnydd yng nghyfraddau ffrwythlonder ac ymfudo wedi cyfrannu tuag at boblogaeth sy'n cynyddu, ac mae gwelliannau mewn datblygiadau meddygol wedi cynyddu disgwyliad bywyd
- **Hunaniaeth Gymreig ac iaith** – er bod dau dreian o'r boblogaeth yn dweud mai Cymry ydynt o safbwynt hunaniaeth genedlaethol, ac er bod mwy o bobl ifanc (o dan 20 oed) yn disgrifio'u hunain fel Cymry, mae lleihad yn y gyfran o bobl sy'n medru siarad Cymraeg, o 21% yn 2001 i 19% yn 2011. Nodir yn adroddiad Comisiynydd yr iaith Cymraeg (2016) bod hyn yn golygu gostyngiad yn y nifer o gymunedau yng Nghymru lle'r oedd dros 70% o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg, o 53 i 39 dros y cyfnod hwnnw o 10 mlynedd

- **Poblogaeth sy'n fwy afiach** – tra'n bod yn byw yn hwy, mae llawer o'r boblogaeth heb fod yn byw bywydau iachach, gyda bron i ddau dreian (58%) o oedolion a 25% o blant yn pwysu gormod neu'n ordew. Cysylltir gordewdra â nifer o risgiau i iechyd – mae'n cynyddu'r risg o ddiabetes math 2, afiechyd y galon, pwysau gwaed uchel, rhai mathau o ganocr, osteoarthritis ac iselder
- **Maint cartrefi** – mae cartrefi'n mynd yn llai wrth i ragor o bobl fyw mewn cartrefi un person neu gartrefi un rhiant, sy'n arwain at gynydd yn nifer cartrefi a fydd yn ôl y rhagolygon yn cynyddu o 15% erbyn 2036
- **Rhaniaid gwledig a threfol** – mae amcangyfrifon diweddaraf yn nodi bod oddeutu 33% o boblogaeth Cymru'n byw mewn awdurdodau gwledig, 14% mewn awdurdodau lled-wledig, 30% yn y cymoedd a chrynohad o 23% mewn awdurdodau trefol, gyda lleihad mewn ardaloedd gwledig i'w ddisgwyl mewn 0 -15 mlynedd, ynghyd â'r nifer o bobl o oedran gweithio, (fel mewn mannau eraill o Gymru), a chynnydd mwy arwyddocaol yn y rhai dros 65 mlwydd oed
- **Cyrhaeddiad addysgol is** – gyda digon o gyflogaeth – ond cyflogaeth sgiliau isel – wedi bod ar gael yn y diwydiannau glo, metel a gweithgynhyrchu yn y gorffennol, ar y cyfan roedd cyrhaeddiad addysgol yn isel. Fodd bynnag, mae'r tueddiad hwn yn parhau ymhlith y genhedlaeth iau, yn arbennig y rhai hynny o gymunedau tlotach sy'n perfformio 32-34% yn waeth na'r rhai hynny mewn ardaloedd gyda llai o amddifadedd. Mae'r tangyflawni addysgol hwn yn amlwg mewn plant mor ifanc â thair blwydd oed

4.3 Canlyniadau tebygol y newid yn y boblogaeth sy'n wynebu cenedlaethau'r dyfodol

- **Mwy o achosion afiechyd** – mae poblogaeth sy'n heneiddio'n golygu cynnydd mewn cyflyrau'n ymwneud ag oedran, fel dementia a canocr. Bydd mynychder ymddygiadau megis defnyddio alcohol, diffyg ymarfer corff, ac ysmegu, ynghyd â'r cynnydd mewn gordewdra yn arwain at gynydd mewn ystod o gyflyrau cyffredin cronig a fedrai gyfyngu ar fywyd
- **Newid yn y galw am wasanaethau iechyd, gwasanaethau gofal a gwasanaethau cyhoeddus ehangach** – mae poblogaeth sy'n heneiddio a phoblogaeth fwy afiach yn debygol o gynyddu'r galw ar wasanaethau cyhoeddus, tra bydd newidiadau eraill megis poblogaeth fwy amrywiol, pobl a fydd yn gwneud gwahanol fathau o waith, a threfniadau byw gwahanol yn newid patrwm y galwadau hynny. Gyda thoriadau parhaus mewn gwasanaethau mae'r sefyllfa'n debygol o waethgu
- **Anghydraddoldebau dyfnach** – mae anghydraddoldebau iechyd eisoes yn eithaf eithafol gyda gwahaniaethau i fyny at 20 mlynedd mewn disgwyliad oes rhwng cymunedau cyfagos mewn rhai rhannau o'r wlad. Mae'r rhain yn debygol o waethgu mewn senario poblogaeth sy'n heneiddio
- **Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACEs)** – bydd cyfuniad o gyraeddiadau addysgol isel a fydd yn achosi diffyg gwaith, diweithdra, salwch yn ymwneud â stres ynghyd â chynnydd mewn ffyrdd o fyw afiach, yn cynyddu'r tebygrwydd o Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod ymhlith plant a phobl ifanc yng Nghymru gan arwain at ymddygiadau niweidiol i iechyd ac ymddygiadau gwrth gymdeithasol, perfformiad gwael yn yr ysgol a mwy o risg o fod yn gysylltiedig â throsteddu – a llai o debygrwydd o fod yn aelod cynhyrchiol o gymdeithas
- **Yr effaith ar y gweithlu** – gallai cynnydd yn y boblogaeth arwain at bobl hŷn yn aros yn hwy yn y gweithlu, ond ar yr un pryd gall gweithwyr hŷn brofi anghenion gofal iechyd a fyddai'n amharu ar eu gallu i weithio. Bydd argaeledd swyddi gweddus yn hollbwysig, yn arbennig ar gyfer pobl ifanc, menywod ac eraill sy'n ceisio cael mynediad i'r gweithlu wrth i bwysau

economaidd cynyddol ar gartrefi olygu bod yn rhaid i holl oedolion yn y cartref weithio er mwyn ennill bywoliaeth

- **Tai** – caiff argaeledd a fforddiadwyedd tai eu gwasgu gan boblogaeth sy'n tyfu a'r newid tuag at lai o aelodau mewn teulu, ac aelwydydd llai, tra bydd y cynnydd mewn adeiladu tai i gwrdd â'r galw o bosibl yn lleihau mynediad i, ac argaeledd manau gwyrdd, a allai ddod â pheryglon amgylcheddol ychwanegol (megis gwneud pobl yn fwy agored i effeithiau'r newid yn yr hinsawdd).
- **Effaith ar adnoddau**– bydd cynnydd yn y boblogaeth yn cynyddu'r galw am adnoddau megis bwyd, dŵr ac ynni, a bydd cwrdd â'r galw hwn yn cynyddu lefelau allyriadau ac yn disbyddu adnoddau, yn arbennig os byddwn yn dal i'w defnyddio fel a wnawn ar hyn o bryd

5. Ymddieithriad dinasyddion – hyrwyddo cyfranogiad cyhoeddus ac ymglyfraniad yn y broses benderfynu

5.1 Trosolwg

Ar gyfer cael cymdeithas ffyniannus a chydlynol rhaid i ddinasyddion gael eu galluogi a themlo bod cysylltiad rhyngddynt â'r broses o lunio'r penderfyniadau sy'n effeithio arnynt hwy a'u cymunedau. Mae hyn yn gofyn am anghydraddoldebau llai eithafol yn ogystal â phresenoldeb sefydliadau cryf ac effeithiol y mae dinasyddion yn ymddiried ynddynt. Yn eu hadroddiad "Making a Good Society", amlygodd Comisiwn Ymchwilio i Ddyfodol y Gymdeithas Sifil yn y DU ac Iwerddon bod "*yr amodau ar gyfer cymdeithas sifil iach yn cynnwys lefelau uchel o ymddiriedaeth a chydraddoldeb cymdeithasol, yn ogystal ag amddiffyniad cyfreithiol ar gyfer annibyniaeth a pherthynas gydweithredol a'r wladwriaeth.*" Yn fwy eang, mae ymgysylltiad dinesig yn hanfodol i gyfiawnder cymdeithasol, gan roi llais i gymunedau a sefydliadau'r trydydd sector, yn cynnwys y rhai hynny sy'n dlotach ac yn fwy ymylol. Yng Nghymru, mae'r bwch cynyddol rhwng y tlawd a'r cyfoethog ac anghydraddoldebau parhaus mewn iechyd wedi tanio ymdeimlad o ddadriethiad tuag wleidyddion a chyrrff cyhoeddus, yn arbennig mewn ardaloedd o amddifadedd. Mynegodd y bleidlais Brexit ddymuniad pwerus am newid. Ar yr un pryd thema gref a ddaeth i'r amlwg o sgwrs genedlaethol y Gymru a Garem oedd yr angen am '*fwy o ymgysylltiad yn y broses ddemocrataidd, llais cryfach i ddinasyddion a chyfranogiad gweithgar yn y broses benderfynu fel sylfaen ar gyfer llesiant cenedlaethau'r dyfodol.*'

5.2 Ffactorau allweddol sy'n cyfrannu at ymddieithriad dinasyddion

- **Ymdeimlad o ddiffyg cysylltiad â'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau** – datgelodd ymarfer Y Gymru a Garem bod cymunedau'n teimlo'n rhwystredig yn dilyn profiadau ailadroddus o ymgynghoriadau aneffeithiol neu rai oedd yn rhy hwyr, neu a gynhaliwyd mewn ffordd lle na ellid dylanwadu ar y penderfyniadau a wnaed. Wrth symud ymhellach ac ymhellach i ffwrdd o Gaerdydd darganfuwyd bod y teimlad hwn yn cryfhau
- **Bwch parhaus rhwng y cyfoethog a'r tlawd** – yng Nghymru mae gan y 10% tlotaf ryw 1.5 o'r cyfanswm incwm, tra bod gan y 10% cyfoethocaf 20-30 gwaith mwy. Yn fyd-eang dywed Oxfam bod wyth biliwnydd yn berchen ar yr un maint o gyfoeth â 3.6 biliwn o'r bobl sy'n creu hanner tlotaf poblogaeth y byd. Mae hyn yn creu teimlad dwys o annhegwch
- **Rhaniadau cenedliadol a daearyddol** – amlygwyd gwahaniaethau mewn barn rhwng cenedlaethau hyn ac ieuengach a rhwng gwahanol ardaloedd o Gymru gan batrymau pleidleisio yn y refferendwm Brexit, a hyn yn cyfrannu tuag at deimlad o gymdeithas ranedig lle nad oedd safbwyntiau normal pleidiau bellach yn berthnasol i bryderon gwirioneddol dinasyddion. Mae ymddiriedaeth ymhlith pobl ifanc yn y llywodraeth hefyd yn isel – dim ond

15% o bobl rhwng 18-25 mlwydd oed oedd yn ymddiried yn Llywodraeth y DU i roi anghenion y genedl yn gyntaf, mewn cymhariaeth â 22% o bobl rhwng 35-44 mlwydd oed

- **Twyll a llygredd o fewn sectorau cyhoeddus, preifat a'r trydydd sector** – mae llygredd a scandalau ariannol megis o gwmpas costau ASau yn arwain llawer i gwestiynu moesau uwch- arweinyddion a gweithredwyr ac yn cynyddu teimlad o ddadurithiad tuag y rhai mewn swyddi cyfrifol
- **Grymoedd tu hwnt i'n rheolaeth** – caiff colli ffydd yn 'y system' a achosir gan ddiffyg llais yn y broses o lunio gwasanaethau ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol gael eu gwaethgu gan ofn cynyddol o rymoedd sy'n ymddangos fel rhai sydd tu hwnt i reolaeth dinasyddion: ymfudo, erydiad gwerthoedd cymdeithasol a chyflymder newidiadau technolegol. Datgelodd arolwg diweddar IPSOS MORI bod dros 75% o boblogaeth y DU yn teimlo bod y byd yn newid yn rhy gyflym ac yn dod yn fwy a mwy peryglus fel lle i fyw ynddo
- **Newidiadau ym myd gwaith** – gallai'r rhai hynny mewn swyddi sgiliau isel neu mewn swyddi gweithgynhyrchu gael eu gwneud yn ddiangen gan gynydd mewn technoleg mewn llawer o ddiwydiannau, gan ychwanegu at deimlad o annhegwch, gan na fyddant, hwyrach, yn medru dod o hyd i gyflogaeth arall yn yr oes ddigidol heb yr hyfforddiant priodol ac uwchsgilio
- **Diffyg manau cyhoeddus hygyrch** – mae mynediad i fannau gwyrdd a chymunedol wedi eu dosbarthu'n anwastad ar draws cymdeithas, a'r grwpiau cymdeithasol tlotaf ar y cyfan â llai o fynediad, a hynny'n golygu nad ydynt yn elwa ar y manteision cysylltiedig fel cyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol, cysylltiad cymdeithasol ac integreiddio, chwarae gyda phlant eraill, a gwell ansawdd aer. Mae canolfannau cymorth a chynghor hefyd wedi eu dosbarthu'n anwastad, a hyn yn effeithio'n benodol ar ardaloedd gwledig
- **Addysg** – mae pobl ifanc wedi eu haddysgu i lefel gradd yn fwy tebygol o gofrestru i bleidleisio (78%) o'u cymharu â'r rhai heb gymwysterau (63%) yn Lloegr a Chymru
- **Effaith cynyddol ymgyrchoedd ymosodol y cyfryngau cymdeithasol/newyddion ffug** – gwelodd y flwyddyn ddiwethaf gynnydd arwyddocaol mewn ymgyrchu drwy wneud defnydd ymosodol o gyfryngau cymdeithasol, megis yn ystod refferendwm yr UE, ac yn fwy diweddar gwelir 'newyddion ffug' hefyd fel rhywbeth sydd ar gynydd i'r fath raddau fel bod arolwg Edelman o'r farn bod *'y mwyafrif o bobl yn credu mwy yn y rhai sy'n siarad yn gegog, yn blaen, a byrlyfyr, yn hytrach nag mewn cyfathrebwyr diplomataidd sydd wedi ennill eu plwyf...a bod ymddiriedaeth wedi ei erydu i'r fath raddau fel ein bod yn awr yn rhoi ein ffydd mewn gwybodaeth a ddatgelwyd yn fwy nag mewn ffynonellau newyddion traddodiadol, ac algorithmau yn hytrach na golygyddion dynol'*

5.3 Canlyniadau tebygol ymddieithriad dinasyddion a fydd yn wynebu cenedlaethau'r dyfodol

- **Difaterwch** – bydd difaterwch tuag at sefydliadau cyhoeddus yn tanseilio ymhellach ymgysylltiad pobl â'r broses ddemocrataidd, a bydd hyn yn gwneud yr ymgais i annog y cyhoedd i godi eu llais a mynnu gwrandawriad a chyfranogi'n weithgar yn y broses benderfynu hyd yn oed yn llai tebygol
- **Diffyg ymddiriedaeth mewn sefydliadau dinesig** – datgelodd yr Edelman Trust Barometer 2017 y cwmp mwyaf erioed mewn ymddiriedaeth ar draws sefydliadau'r llywodraeth, busnes, y cyfryngau a Chyrrff Anllywodraethol yn ystod Rhagfyr 23 - Ionawr 9fed 2017, gyda'r ymddiriedaeth yn y cyfryngau'n disgyn yn serth i 43%, ac ymddiriedaeth mewn llywodraeth yn disgyn i 41%. Credai dros 50% o'r rhai a holwyd bod *"y system gyfredol ar y cyfan wedi eu methu, ei bod yn annheg ac yn cynnig ychydig iawn o obaith ar gyfer y dyfodol"*

- **Nifer isel yn dod allan i bleidleisio** – gallai dadrithiad a diffyg ymgysylltiad â'n sefydliadau sbarduno parhad yn y nifer o bobl sy'n pleidleisio yn etholiadau'r Cynulliad; mae hyn wedi aros ar lai na 50% ar draws Cymru dros yr ychydig gylchoedd etholiadol diwethaf
- **Erydiad hunaniaeth genedlaethol ac ysbryd cymunedol** – mae Cymru'n falch o'i threftadaeth a'i diwylliant gyda dinasyddion yn gynyddol yn disgrifio'u hunain fel Cymry yn hytrach na Phrydeinwyr. Mae dinasyddion Cymru'n mynegi gwerthoedd trugarog yn hytrach na rhai hunanol i raddau helaethach na'r rhan fwyaf o weddill Prydain. Daeth y teimlad hwn o falchder yn eu lleoliad hefyd yn amlwg drwy'r sgwrs genedlaethol ar Y Gymru a Garem. Fodd bynnag, ymddengys bod yr ysbryd cymunedol hwn yn erydu gydag agweddau negyddol cynyddol tuag at ymfudo yn arwain at gynnydd mewn gwahaniaethu, wedi ei sbarduno gan nifer o ffactorau yn cynnwys cystadleuaeth honedig am adnoddau, swyddi a gwasanaethau yn ogystal â'r gystadleuaeth am dai
- **Diffyg gallu i ymdopi ag effaith polisïau caledi** – yng nghyd-destun y toriadau yng ngwariant y llywodraeth ac anghymeradwyaeth gynyddol o wariant lles ac ymfudo mae yna angen cynyddol am sefydliadau dinesig cadarn a fedr siarad ar ran eu cymunedau, ac yn arbennig ar ran y cymunedau tlotaf a'r rhai mewn cymdeithasau mwy ymylol
- **Anghydraddoldebau mynych** – os nad ydyw dinasyddion yn barod neu'n abl i ymgysylltu mewn dull ystyrlon â'r broses o wneud penderfyniadau cyhoeddus mae yna lai o debygrwydd y gellir torri'r cylchoedd o anghydraddoldeb, amddifadedd a thlodi oherwydd bod yna ddiffyg dealltwriaeth ddofn o achosion a'r cyfleoedd ar gyfer newid, ac oherwydd y bydd cydweithio rhwng cyrff cyhoeddus a chymunedau'n cael eu cyfaddawdu
- **Tensiynau rhwng cymunedau** – fel a ddaeth yn amlwg yn dilyn canlyniadau refferendwm Brexit, gall tensiynau rhwng cymunedau a mynegiant agweddau hiliol ddwysau yn gyflym yn y math o hinsawdd ddadleuol gyhoeddus ymosodol ac ymrannol a allai fod yn fwy tebygol lle mae dinasyddion yn teimlo nad oes neb, fel arall, yn gwrando arnynt

6. SenseMaker a'r Cynllun Strategol Drafft

Diolch am eich diddordeb. Os nad ydych wedi gwneud hynny eisoes, os gwelwch yn dda rhowch eich adborth i ni a dywedwch wrthym beth sy'n bwysig i chi drwy gyfrwng ein harolwg SenseMaker sydd ar gael [yma](#). Mae'r holl waith hyn hefyd yn ein helpu i ddylunio ein cynllun strategol. Gallwch gyrchu'r fersiwn drafft [yma](#).

ATODIAD 1. Trosolwg o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Daeth y [Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015](#) i rym yn Ebrill 2016, ac mae'n gosod dyletswydd ar y 44 corff cyhoeddus a ddatganolwyd yng Nghymru i 'weithredu datblygu cynaliadwy', sy'n golygu

“y broses o wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru drwy weithredu, yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy (gweler adran 5), gyda'r bwriad o gyflawni'r nodau llesiant (gweler adran 4)”.

1.1 Egwyddorion Datblygu Cynaliadwy a'r pum dull o weithio

Mae gweithredu'n unol â'r egwyddorion Datblygu Cynaliadwy yn golygu, fel y nodir yn Adran 5 o'r ddeddfwriaeth:

“bod yn rhaid i'r corff weithredu mewn dull sy'n bwriadu sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb gyfaddawdu gallu cenedlaethau'r dyfodol i gwrdd â'u hanghenion hwythau”

Er mwyn gweithredu yn y dull hwnnw, rhaid i gorff cyhoeddus ystyried y pethau canlynol:

- a) y pwysigrwydd o gydbwysu anghenion tymor byr gyda'r angen i ddiogelu'r gallu i **gwrdd ag anghenion hirdymor**, yn arbennig lle gallai'r pethau sy'n cael eu gwneud i gwrdd ag anghenion tymor byr gael effaith hirdymor andwyol
- b) Yr angen i fabwysiadu **ymagwedd integredig**, drwy ystyried sut:
 - i. y gallai amcanion llesiant y corff effeithio ar bob un o'r nodau llesiant
 - ii y mae amcanion llesiant cyrff yn effeithio ar ei gilydd neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill, yn arbennig lle gallai camau a wnaethpwyd gan y corff gyfrannu at gwrdd ag un amcan ond ar yr un pryd fod yn debygol o amharu ar un arall
- c) y pwysigrwydd o ennyn ymgyfraniad **personau eraill â diddordeb** mewn cyflawni'r nodau llesiant a sicrhau bod y personau hynny'n adlewyrchu amrywiaeth poblogaeth:
 - i. Cymru (lle mae'r corff yn ymarfer dulliau o weithio mewn perthynas â Chymru gyfan), neu (ii) y rhan o Gymru, mewn perthynas â'r hon y mae'r corff yn ymarfer ei ddulliau o weithio
- d) sut y gallai **cydweithredu ag unrhyw berson arall** (neu sut y gallai gwahanol rannau o'r corff weithredu gyda'i gilydd) helpu'r corff i gwrdd â'i amcanion llesiant, neu helpu corff arall i gwrdd â'i amcanion
- e) sut y gall defnyddio adnoddau i **atal problemau rhag digwydd** neu waethygu gyfrannu at gwrdd ag amcanion llesiant y corff, neu amcan corff arall

1.2 Y nodau llesiant

Caiff y nodau llesiant eu diffinio fel a ganlyn:

Nod	Disgrifiad o'r nod
Cymru lewyrchus.	Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol, carbon isel sy'n cydnabod y terfynau sydd ar yr amgylchedd byd-eang ac sydd, o ganlyniad, yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur (gan gynnwys gweithredu ar newid yn yr hinsawdd); ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy gael gafael ar waith addas.
Cymru gydnherth.	Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cynnal cydnherthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid (er enghraifft newid yn yr hinsawdd).
Cymru iachach.	Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl a lle deellir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol.
Cymru sy'n fwy cyfartal.	Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau cymdeithasol-economaidd).
Cymru o gymunedau cydlynus.	Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da.
Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu.	Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden.
Cymru sy'n gyfrifol ar lefel byd-eang.	Cenedl sydd, wrth iddi wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai gwneud peth o'r fath gyfrannu'n gadarnhaol at lesiant byd-eang.

Atodiad 2: Rôl Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru

Mae'r ddeddfwriaeth yn nodi'n glir bwerau a dyletswyddau'r Comisiynydd, ynghyd â'r swyddogaethau y gall y Comisiynydd eu gweithredu i gyflawni'r dyletswyddau hyn.

2.1 Dyletswyddau a Phwerau'r Comisiynydd

Fel a nodir yn Rhan 3 o'r ddeddfwriaeth, dyletswydd gyffredinol y Comisiynydd yw:

- a) hybu egwyddor datblygu cynaliadwy, yn arbennig i:
 - (i) weithredu fel gwarcheidwad gallu cenedlaethau'r dyfodol i gwrdd â'u hamcanion
 - (ii) annog cyrff cyhoeddus i dalu mwy o sylw i effaith hirdymor yr hyn a wneir ganddynt
- b) at y diben hwnnw i fonitro ac asesu i ba raddau y mae'r amcanion llesiant a bennir gan gyrff cyhoeddus yn cael eu diwallu

Wrth gyflawni'r ddyletswydd hon, gall y Comisiynydd roi **cyngor neu gymorth** i'r cyrff cyhoeddus, Archwilydd Cyffredinol Cymru, y cyrff gwasanaethau cyhoeddus, ac unrhyw bersonau eraill yr ystyrir eu bod yn gweithredu ac yn cyfrannu tuag at wireddu'r nodau llesiant; **annog arfer gorau** ymhlith y cyrff cyhoeddus i gwrdd â'u hamcanion llesiant; **hybu ymwybyddiaeth**; **gwneud ymchwil** ar, ymhlith pethau eraill "*unrhyw beth sy'n berthnasol i unrhyw un o'r pethau hynny sy'n effeithio ar lesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru (neu unrhyw ran o Gymru).*"

Gall y Comisiynydd hefyd "**gynnal adolygiad** i asesu i ba raddau mae corff cyhoeddus yn diogelu gallu cenedlaethau'r dyfodol i gwrdd â'u hanghenion drwy ystyried effaith hirdymor yr hyn a wneir gan y corff".

Hefyd rhaid i'r Comisiynydd, bob 5 mlynedd, (flwyddyn cyn yr etholiad cyffredinol) baratoi a chyhoeddi **Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol**, sef adroddiad sy'n cynnwys asesiad y Comisiynydd o'r gwelliannau y dylai cyrff cyhoeddus eu gwneud er mwyn gosod a chwrdd ag amcanion llesiant yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy. "*Rhaid i adroddiad y Comisiynydd gynnwys, yn arbennig, asesiad o'r modd y dylai cyrff cyhoeddus:*

(a) *ddiogelu'n well allu cenedlaethau'r dyfodol i gwrdd â'u hanghenion*

(b) *dalw mwy o sylw i effaith hirdymor yr hyn a wneir ganddynt.*

Mae'r uchod yn rhoi syniad o ehangder cylch gwaith y Comisiynydd a'r pwysigrwydd o gael sylfaen dystiolaeth gadarn fel sail i'w hargymhellion, ei chyngor a, lle mae angen, i herio cyrff cyhoeddus ar ba mor dda y maent yn cwrdd â'u hamcanion a'u cynlluniau llesiant.